

Archwiliad Cyhoeddus CDLI - Cyngor Sir y Fflint

Datganiad Agoriadol gan y Cyngor

Andy Roberts ydw i ac rwy'n Gynllunydd Tref Siartredig. Fi yw Strategaeth Rheoli Gwasanaeth y Cyngor ac fel rhan o fy nghylch gorchwyl rwy'n rheoli'r tîm sy'n gyfrifol am gynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol y Cyngor.

Bydd fy nghydweithwyr Adrian Walters, Vicky Weale, Rachel Richardson a Terry Stevens yn dod gyda mi i'r sesiynau gwrandawriad yn ôl yr angen. Hefyd, mae'n bosibl y bydd swyddogion arbenigol eraill o'r Cyngor yn fy nghefnogi i a chydweithwyr polisi mewn sesiynau i gynorthwyo'r Arolygwyr i ymateb i unrhyw faterion neu gwestiynau technegol sy'n codi. Yn yr un modd, mae'n bosibl y bydd ymgynghorwyr neu asiantwyr allanol sydd wedi cynghori'r Cyngor ar agweddau o'r sylfaen dystiolaeth hon neu sydd â buddiant mewn safleoedd yn y cynllun, yn cynorthwyo a chefnogi'r Cyngor mewn sesiynau priodol.

Mae Cynllun Datblygu Lleol y Cyngor yn cwmpasu cyfnod 2015 – 2030 a chafodd ei gymeradwyo i'w Gyflwyno i'w Archwilio gan y Cyngor ar 29 Medi 2020. Yn dilyn hynny cafodd ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio i'w archwilio ar 30 Hydref 2020. Cafwyd cydnabyddiaeth ffurfiol bod y ddogfen wedi'i chyflwyno i'r Arolygiaeth Gynllunio ar 11 Tachwedd 2020 ac felly dechreuodd yr Archwiliad bryd hynny.

Heblaw am y materion sy'n cael eu harchwilio a'r cynrychiolwyr sy'n dymuno cael eu clywed, mae'r Cyngor yn credu bod y Cynllun a gyflwynwyd i'w archwilio yn gadarn a bod modd ei fabwysiadu, a gan hynny mae'n diweddar'u'r fframwaith polisi a ddefnyddir i arwain lle mae datblygiadau yn digwydd, a hefyd mae'n ffurfio sail gyfredol ar gyfer unrhyw benderfyniadau a wneir ar geisiadau cynllunio.

Mae'r cynllun wedi cael ei baratoi yn unol â'r gweithdrefnau statudol o dan adran 64(5) (a) o Ddeddf Prynu Gorfodol (2004) a Rheoliadau cysylltiedig, mae wedi cymryd i ystyriaeth polisiâu, canllawiau a deddfwriaethau cenedlaethol gan gynnwys Deddf

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac yn arbennig mae'n cydymffurfio â Pholisi Cynllunio Cymru 11 a ryddhawyd yn ddiweddar, Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (rhifyn 3), yn ogystal â chydymffurfio'n gyffredinol a'r Cynllun Datblygu Cenedlaethol, Cymru'r Dyfodol.

Credir bod strategaeth y CDLI yn darparu sail i Sir y Fflint wneud cyfraniad priodol yng nghyd-destun twf cenedlaethol a ragwelir ar gyfer gogledd Cymru. Y gofyniad newydd am Gynllun Datblygu Strategol yng ngogledd Cymru yw'r cyd-destun priodol i ystyried y twf ehangach hwn yn y dyfodol o ran maint a gofod.

Mae'r cynllun wedi cael ei hysbysu gan dystiolaeth gadarn a chynhwysfawr ac mae wedi asesu dewisiadau amgen rhesymol i fod yn sail i'w strategaeth ac wrth ddethol safleoedd cynaliadwy. Mae rhaglen ymgysylltu ac ymgynghori eang a chynhwysol wedi'i chynnal gyda budd-ddeiliaid allweddol a'r cyhoedd, ac mae ystyriaeth briodol wedi'i rhoi i'r sylwadau a'r adborth a gyflwynwyd i'r Cyngor yn ystod digwyddiadau ymgysylltu ac ymgynghori ffurfiol ac anffurfiol. O ganlyniad i'r broses hon, nid oedd unrhyw un o'r ymgynghoreion statudol yn gwrthwynebu'r cynllun yn sylfaenol, ac mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cadarnhau nad oes ganddynt unrhyw bryderon sylfaenol ynglŷn â chadernid y CDLI.

O ran perfformiad y cynllun hyd yma i ddarparu ei ffigwr gofyniad tai, mae'r cynllun ar y trywydd iawn ac yn ystod pum mlynedd gyntaf y cynllun mae wedi cyflawni neu ragori ar y gyfradd flynyddol o ddarpariaeth a ragwelwyd. Mae'r Cyngor wedi darparu llwybr tai wedi'i ddiweddarau i ddangos hyn yn ogystal â chadarnhau y gall y cynllun barhau i ddarparu digon o dai i fodloni'r gofyniad am weddill cyfnod y cynllun trwy ddyraniadau cyraeddadwy, ac mae'r ganran hyblygrwydd bellach yn 18%.

Yn olaf, mae'r Cyngor wedi paratoi datganiadau ar gyfer pob sesiwn gwrandawriad sy'n ymateb i faterion a godwyd gan yr Arolygwyr. Lle bo hynny'n briodol, mae'r datganiadau hyn yn crynhoi ac yn cysylltu gyda'r cyfiawnhad a'r dystiolaeth ategol sy'n dangos bod y CDLI yn bodloni'r profion cadernid.

Bydd y Cyngor yn parhau i wneud popeth o fewn ei allu i gynorthwyo'r Arolygwyr i sicrhau bod yr archwiliad yn rhedeg yn esmwyth.